Er y rhagwelir y bydd nifer y bobl ifanc yn gostwng, rhagwelir y bydd nifer cyffredinol y bobl hŷn yn cynyddu'n gymedrol, gyda'r oedran cyfartalog yn cynyddu'n raddol. Bydd y gymhareb pobl oed gweithio i bobl wedi ymddeol yn gostwng yn sylweddol. Mae'r newid hwn yn cyflwyno heriau o ran cynaliadwyedd economaidd, gwasanaethau cyhoeddus, ac argaeledd y gweithlu, a bydd yn cynyddu pwysigrwydd cynnig cyfleoedd i bobl sydd eisoes o oedran gweithio wella eu cymwysterau a'u sgiliau, yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar wella lefelau cymwysterau pobl ifanc.

Bu gostyngiad mawr yng nghyfran yr oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau, o 15.2% yn 2008 i 7.9% yn 2024. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau mawr ar draws ardaloedd awdurdodau lleol, yn amrywio o 2.3% ym Mro Morgannwg i 13.8% ym Mlaenau Gwent. Mae oedolion hŷn yn fwy tebygol o fod heb unrhyw gymwysterau nag oedolion iau ac mae dynion yn fwy tebygol o fod heb unrhyw gymwysterau na menywod.

Roedd cyfran yr oedolion o oedran gweithio a oedd wedi cymhwyso i lefel 2 o leiaf (sy'n cyfateb i TGAU A* i C) yn 87.6% yn 2024. Yn 2024, roedd 68.6% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru wedi cymhwyso i lefel 3 (sy'n cyfateb i gymwysterau BTEC a Safon Uwch) neu uwch. Mae hyn yn dangos bod rhagor o waith i'w wneud i wella cyfraddau cyflawni cymwysterau poblogaeth oedolion Cymru ar lefelau 2 a 3. Mae'r crynodiad o lefelau cymwysterau isel ymysg grwpiau penodol ac mewn meysydd penodol yn awgrymu bod angen ymyriadau wedi'u targedu'n well i roi cyfleoedd addysg a hyfforddiant i unigolion heb unrhyw gymwysterau.

**Ffigur 12: Lefel y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oedran gweithio yng Nghymru a'r DU, 2008 i 2024**




Ffynhonnell: Lefel y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oedran gweithio: 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

Mae lefelau cymwysterau isel yn gysylltiedig â lefelau uchel o ddiweithdra. Dangosodd data Cyfrifiad 2021 nad yw 65% o'r rhai sy'n cael eu dosbarthu fel 'erioed wedi gweithio neu'n ddi-waith yn y tymor hir' yn gymwys i lefel 2 ac nad oes gan 55% unrhyw gymwysterau o gwbl. Mae'r rheini sydd ag o leiaf lefel 1 a chymwysterau lefel mynediad dros hanner mor debygol o fod yn ddi-waith yn y tymor hir o'u cymharu â'r rheini sydd heb gymwysterau, ac mae'r rheini sy'n gymwys i lefel 2 bron i hanner mor debygol eto o fod erioed wedi gweithio neu fod yn ddi-waith yn y tymor hir. Mae Ymchwil yn awgrymu bod y berthynas rhwng lefelau sgiliau sylfaenol oedolion (yn enwedig rhifedd) a chyflogaeth yn achosol ac nid yn gysylltiad yn unig.


Pobl o gefndiroedd mwy cefnog neu sydd eisoes â lefelau uwch o addysg yw'r mwyaf tebygol o gymryd rhan mewn dysgu gydol oes. Yn ôl y Sefydliad Dysgu a Gwaith, mae oedolion yn y DU 20% yn fwy tebygol o ddysgu fel oedolyn os ydynt yn gadael yr ysgol yn 18 oed o'i gymharu ag 16 oed, ac nid yw hanner y rhai a adawodd addysg llawn amser yn 16 oed neu'n iau wedi cymryd rhan mewn dysgu ers hynny.

Ar wahân i lefelau cymwysterau, mae bylchau yn ein dealltwriaeth o lefelau sgiliau sylfaenol a hanfodol - mewn llythrennedd, rhifedd a digidol - ymysg oedolion yng Nghymru. Cynhaliwyd yr Arolwg Cenedlaethol diwethaf o Sgiliau Oedolion yn 2010.

### 2.2.3 – Dysgu gydol oes ac oedolion

Cynigir cyrsiau addysg bellach rhan-amser ledled Cymru ac maent yn darparu cyfleoedd o lefel mynediad i lefel 4 i wella sgiliau sylfaenol, academaidd a galwedigaethol. Maent yn cael eu gwneud yn bennaf gan ddysgwyr 19 oed a hŷn. Gostyngodd nifer y dysgwyr rhan-amser mewn addysg bellach yn sylweddol rhwng 2013 a 2020. Fodd bynnag, maent wedi cynyddu dros dymor y Senedd ddiwethaf, yn rhannol oherwydd cyflwyno llwybrau newydd i ddysgu fel cyrsiau Cyfrif Dysgu Personol (PLA).

**Ffigur 13: Dysgwyr addysg bellach rhan-amser yn ôl blwyddyn academaidd, Awst 2013 i Orffennaf 2024**




Ffynhonnell: Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol, Awst 2023 i Orffennaf 2024 - Medr

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu cyrsiau Cyfrif Dysgu Personol mewn colegau ers 2020 ac maent bellach yn cael eu hariannu gan Medr. Roedd ehangu'r ddarpariaeth o'r cyrsiau hyn yn ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae Cyfrifon Dysgu Personol yn gyrsiau byr, hyblyg rhwng lefelau 2 a 5 mewn meysydd lle mae prinder sgiliau sy'n cynnwys technolegau gwyrdd a sero net, sgiliau digidol, logisteg, a gweithgynhyrchu a deunyddiau uwch, sydd ar gael i oedolion cyflogedig sy'n ennill llai na'r cyflog amser llawn canolrifol cenedlaethol (sef £34k ar hyn o bryd).

Darparwyd bron i 50,000 o gyrsiau Cyfrifon Dysgu Personol rhwng 2021/22 a 2023/24, gyda £79m o wariant Llywodraeth Cymru yn gefn iddynt. Mae'r ddarpariaeth wedi gostwng yn ystod y ddwy flynedd diwethaf oherwydd gostyngiad mewn cyllid. Mae'r galw'n fwy na'r cyflenwad yn rheolaidd, ac mae Medr wedi gorfod cyflwyno rheolaethau cynllunio newydd i sicrhau bod cyrsiau'n canolbwyntio ar feysydd lle ceir prinder sgiliau y cytunwyd arnynt. Mae cyrsiau Cyfrif Dysgu Personol bellach wedi'u cynnwys fel rhan o ddyraniadau addysg bellach rhan-amser Medr. Canfu gwerthusiad yn 2023 fod rhaglen Cyfrif Dysgu Personol wedi bod yn effeithiol o ran denu oedolion cyflogedig yn ôl i ddysgu a hyfforddi a'i bod wedi creu hyblygrwydd newydd i golegau ymateb i anghenion y farchnad lafur leol.

Mae prentisiaethau hefyd yn rhan bwysig o gyfleoedd hyfforddi gydol oes. Fel y nodwyd uchod, mae tua hanner y prentisiaethau yng Nghymru yn cael eu dilyn gan bobl dros 25 oed. Cyflwynodd Adran 94 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ddyletswydd newydd ar Medr i sicrhau "cyfleusterau priodol" ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i oedolion a bennir mewn rheoliadau. Fodd bynnag, nid yw'r adran wedi'i chychwyn eto, ac nid yw'r rheoliadau perthnasol wedi'u gosod eto. Er mwyn i'r ddyletswydd newydd gael effaith ystyrlon a sicrhau canlyniad cadarnhaol i ddysgwyr yng Nghymru, mae angen i ni nodi beth fyddai'r ymyriadau mwyaf effeithiol. Mae'n bwysig bod y ddyletswydd yn fforddiadwy, yn gyflawnadwy ac wedi'i thargedu'n briodol i wneud gwahaniaeth i'r cyfleoedd addysg bellach a hyfforddiant sydd ar gael i oedolion yng Nghymru.

Mewn addysg uwch, mae cyfraddau cyfranogi myfyrwyr rhan-amser a hŷn o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd nifer y cofrestriadau newydd yn y Brifysgol Agored yng Nghymru wedi mwy na dyblu rhwng 2017/18 a 2023/24, gan gyd-fynd â chyflwyno ffioedd myfyrwyr rhan-amser wedi'u sybsideiddio'n rhannol a chymorth cynhaliaeth myfyrwyr pro-rata ar gyfer myfyrwyr rhan-amser. Fodd bynnag, mae astudio rhan-amser y tu allan i'r Brifysgol Agored wedi aros yn gymharol fach, ac mae'n parhau i fod yn rhan fach o gynnig y rhan fwyaf o sefydliadau.

Mae'r Hawl i Ddysgu Gydol Oes yn bolisi newydd gan Lywodraeth y DU sydd â'r nod o drawsnewid cyllid myfyrwyr addysg uwch yn Lloegr drwy greu un system gyllido hyblyg ar gyfer addysg uwch. Mae'r hawl yn cynnig benthyciad sy'n cyfateb i bedair blynedd o astudio, sef tua £38,140 ar hyn o bryd, ar gyfer cymwysterau Lefelau 4 i 6, fel graddau a chymwysterau lefel uwch eraill. Mae'n cwmpasu cyrsiau llawn ac, wrth eu cyflwyno fesul cam, astudiaeth fodiwlaidd gydag o leiaf 30 credyd i bob modiwl mewn pynciau blaenoriaeth sy'n cyd-fynd â strategaeth ddiwydiannol. O fis Medi 2026 ymlaen, bydd dysgwyr yn gallu gwneud cais am gyllid Hawl i Ddysgu Gydol Oes ar gyfer cyrsiau, ac o fis Ionawr 2027 ar gyfer modiwlau. Mae'r Hawl i Ddysgu Gydol Oes wedi'i alluogi gan Ddeddf Sgiliau ac Addysg ôl-16 2022, Deddf Dysgu Gydol Oes (Terfynau Ffioedd Addysg Uwch) 2023, ac is-ddeddfwriaeth helaeth. Nid yw'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru nac i gymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru. Felly, ni fydd yr Hawl i Ddysgu Gydol Oes ar gael i fyfyrwyr o Gymru.

Fel y nodwyd uchod, mae Cymru eisoes yn cynnig system hyblyg sy'n cefnogi addysg uwch ran-amser drwy grantiau a benthyciadau pro-rata ar gyfer y rhai sy'n astudio ar ddwysedd o 25 y cant neu fwy, a hepgor ffioedd gan Medr ar gyfer astudio ar ddwysedd is na 25 y cant. Mae'r rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol wedi llwyddo i gynnig cyrsiau byr a hyblyg mewn addysg bellach. Nid yw'n glir o hyd a fydd galw sylweddol am ddarpariaeth addysg uwch fodiwlaidd a ariennir drwy fenthyciadau, a chyrsiau modiwlaidd peilot "nad oes llawer o alw amdanynt" yn ôl cyn weinidog yn yr Adran Addysg. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y byddai cyflwyno'r Hawl i Ddysgu Gydol Oes yng Nghymru yn arwain at gost cyfle sylweddol, gyda llawer mwy o gymhlethdod yn ofynnol mewn deddfwriaeth, rheoleiddio a darparu cyllid drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC). Byddwn yn parhau i fonitro'r gwaith o gyflwyno'r Hawl i Ddysgu Gydol Oes yn Lloegr drwy 2026 a 2027, gan gynnwys y goblygiadau i sefydliadau a dysgwyr yng Nghymru, ac yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar unrhyw faterion trawsffiniol sy'n dod i'r amlwg.

## 2.2.4 – Crynodeb: newid demograffig a dysgu gydol oes

- Rhaid i sector addysg drydyddol Cymru fod yn barod am ostyngiad yn nifer y bobl ifanc a phoblogaeth sy'n heneiddio. Rhaid i sefydliadau addasu eu strategaethau cynllunio, staffio a darparu i ymateb i newidiadau demograffig lleol ac anghenion amrywiol cymunedau.

- Gallai'r gostyngiadau a ragwelir mewn pobl ifanc gyflwyno heriau ariannol a gweithredol i ddarparwyr addysg, yn enwedig mewn rhanbarthau gwledig a llai poblog.

- Bydd angen i bolisi ganolbwyntio fwyfwy ar gynnig cyfleoedd hyblyg a rhan-amser i ddysgwyr o bob oed ac ar bob lefel, yn enwedig i'r rheini sydd eisoes mewn gwaith.

- Mae lefelau cymwysterau isel yn dal yn gysylltiedig â diweithdra uwch, gan danlinellu pwysigrwydd ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer dysgu oedolion a datblygu sgiliau, yn enwedig mewn meysydd sgiliau sylfaenol fel llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â hyfforddiant galwedigaethol.

- Mae tueddiadau diweddar yn dangos cynnydd mewn dysgwyr rhan-amser a phrentisiaethau ar draws amrywiaeth oedran eang, gyda sefydliadau addysg uwch yn profi cofrestriadau rhan-amser cyson.

- Gallai polisi yn y dyfodol adeiladu ar lwyddiannau gan gynnwys cymorth i fyfyrwyr rhan-amser a Chyfrifon Dysgu Personol, yn ogystal â'r cyfleoedd hyfforddi gydol oes a ddarperir gan brentisiaethau.

## 2.3 Cystadleuaeth a chydweithio

Ar draws y sector trydyddol, rydym yn gweld newidiadau yn nifer y dysgwyr, yn y galw ac yn newisiadau pynciau. Mae niferoedd chweched dosbarthiad ysgolion wedi gostwng yn y tymor hir, tra bo'r galw am golegau addysg bellach yn cynyddu. Mae prifysgolion tariff uchel yn recriwtio mwy ar draul prifysgolion eraill ac mae newidiadau diweddar gan Lywodraeth y DU wedi arwain at ostyngiad yn y galw gan fyfyrwyr rhyngwladol. Mae niferoedd is o fyfyrwyr mewn llawer o brifysgolion a chyrsiau wedi arwain at brifysgolion yn ailstrwythuro eu darpariaeth, gan arwain at risg o fannau oer o ran pynciau yng Nghymru.
Gallai'r mecanweithiau cyllido presennol, mewn addysg 16-19 ac addysg uwch, fod yn cymell ymddygiad cystadleuol rhwng darparwyr a allai, yn y tymor hir, fod yn niweidiol i gynaliadwyedd rhywfaint o ddarpariaeth addysg a darparwyr.


Bydd diffyg cydweithio a chydlynu, yn enwedig o ystyried bod Cymru'n gymharol fach, yn peri heriau o ran sicrhau mynediad parhaus at gwricwlwm eang a hygyrch ledled Cymru gyfan ar bob lefel o addysg drydyddol.

Mae Medr wedi cael y dasg o archwilio dulliau mwy cydweithredol a chydlynol o gynllunio a darparu addysg drydyddol yng Nghymru, ac o hwyluso mwy o gydweithio rhwng darparwyr. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gweithio gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a'r Adran Addysg i egluro'r sefyllfa reoleiddio i ddarparwyr addysg uwch. Wrth edrych i'r dyfodol, bydd angen i Medr a Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen diwygio rheoleiddio, cyllid a llywodraethiant ymhellach i ddarparu dull mwy cydlynol sy'n diogelu dyfodol darpariaeth addysg drydyddol eang ledled Cymru.

### 2.3.1 - Ysgolion a cholegau

Dros y degawd diwethaf bu gostyngiad sylweddol yn nifer yr ysgolion sydd â chweched dosbarth, sydd wedi gostwng un rhan o bump (wrth eithrio ysgolion arbenigol), a nifer y disgyblion mewn chweched dosbarth ysgolion, sydd wedi gostwng 29%. O'r dysgwyr sy'n symud ymlaen i addysg ôl-16, mae cyfran sy'n gostwng yn dewis astudio mewn ysgolion, fel y nodwyd yn rhan 2.1.

**Ffigur 14: Nifer y disgyblion ôl-16 mewn ysgolion**




Ffynhonnell: Stats Cymru - Disgyblion yn ôl awdurdod lleol, grŵp blwyddyn a sector

Mae'r gostyngiad yn nifer y disgyblion ar lefel genedlaethol wedi bod yn gyflymach na'r gostyngiad yn nifer yr ysgolion sydd â darpariaeth ôl-16, sy'n debygol o arwain at ddosbarthiadau llai mewn sawl achos.

Mae hyn wedi arwain at nifer o awdurdodau lleol yn gwerthuso cynaliadwyedd eu darpariaeth ôl-16, gan gynnwys Powys, Ceredigion ac Ynys Môn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn awdurdodau lleol eraill fel Torfaen, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf sydd wedi ad-drefnu'r ddarpariaeth ôl-16 mewn ysgolion. Mae ad-drefnu ysgolion yn broses hir sy'n amodol ar fframwaith deddfwriaethol a gofynion statudol o dan y cod trefniadaeth ysgolion a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Mewn achosion o'r fath, mae pryderon wedi cael eu codi'n aml am ddyfodol darpariaeth Gymraeg, yn ogystal â chostau teithio a phellteroedd uwch yn creu rhwystr i hygyrchedd addysg ôl-16.

I'r gwrthwyneb ac fel y nodwyd uchod, mae cyfran y dysgwyr sy'n mynd i golegau addysg bellach yn 16 oed wedi bod yn cynyddu'n raddol ac mae bellach yn fwy yng Nghymru nag yng ngwledydd eraill y DU. Disgrifiwyd y tueddiadau hyn gan yr 'adroddiad 'Pontio i Fyd Gwaith' fel 'darnio' cynyddol o'r sector ôl-16.

Mae'n ymddangos bod y tueddiadau hyn yn rhoi mwy o bwysau ar ysgolion i gadw dysgwyr, a allai fod yn peryglu ansawdd y cyngor a'r arweiniad ar opsiynau ôl-16. Canfu adroddiad gan Estyn yn 2022 fod llawer o ddysgwyr yn teimlo nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth am opsiynau dysgu galwedigaethol a dysgu seiliedig ar waith. Atgyfnerthwyd y casgliad hwn gan adroddiad diweddar gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, a oedd yn disgrifio mai'r pryder a godwyd amlaf yn eu hymchwiliad oedd ynglŷn â rhai ysgolion gyda chweched dosbarth yn hyrwyddo eu cyrsiau eu hunain ar draul codi ymwybyddiaeth o opsiynau ôl-16 eraill.

Mae sawl adroddiad wedi argymell bod angen mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion a cholegau i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyngor ac arweiniad diduedd am gyrchfannau yn y dyfodol, yn ogystal â diogelu cynaliadwyedd cwricwlwm eang a hygyrch. Roedd adolygiad thematig Estyn o Bartneriaethau ôl-16 yn 2021 yn pwysleisio pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion a cholegau i wella ansawdd ac ehangu dewis dysgwyr, ac mae hon yn thema a atgyfnerthwyd yn yr Adolygiad mwy diweddar o Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru.


Yr her o'n blaenau yw sut i ffurfioli a chymell gweithio mewn partneriaeth rhwng colegau, ysgolion, awdurdodau lleol a darparwyr eraill i gynnal cwricwlwm eang a hygyrch ar ôl 16 oed ar draws pob rhan o Gymru, gan adeiladu ar rai o'r enghreifftiau cadarnhaol a nodir isod yn 2.3.3.

## 2.3.2 - Nifer y myfyrwyr addysg uwch
## Myfyrwyr yn y DU

Yn y degawd ers codi'r cyfyngiadau ar recriwtio myfyrwyr israddedig cartref yng Nghymru a Lloegr, mae nifer sylweddol o fyfyrwyr domestig wedi cael eu hailddosbarthu ym mhrifysgolion Cymru, ac amrywiaeth yn y ffordd y mae prifysgolion wedi gorfod ymateb i farchnad gynyddol gystadleuol.

Mae prifysgolion elît sydd â brandiau cryf a chyllid diogel wedi mynd ati'n ymosodol i ehangu eu prosesau recriwtio myfyrwyr (fel arfer mewn pynciau cost is) i ailfuddsoddi mewn ymchwil a chyfleusterau, ac felly cynyddu eu hapêl, eu brand a'u safleoedd tablau cynghrair ymhellach.

**Ffigur 15: Ymgeiswyr a dderbyniwyd gan UCAS yn ôl grŵp tariff darparwyr - prif gynllun**




Ffynhonnell: Adnoddau data diwedd cylch i israddedigion 2025 | UCAS

Ers peidio â chapio ymgeiswyr israddedig cartref, mae nifer cynyddol o ymgeiswyr wedi mynd i'r sefydliad o'u dewis, gydag 82% o bobl ifanc 18 oed dan gynnig i fynd i'w dewis cyntaf yn 2025. Dros amser, mae dysgwyr a'u cynghorwyr mewn ysgolion a cholegau wedi ymateb i'r duedd hon, gyda chyfran gynyddol o geisiadau bellach yn cael eu cyfeirio at ddarparwyr tariff uwch ar y disgwyliad o fwy o siawns o gael eu derbyn. Rhwng 2016 a 2025, cynyddodd nifer yr ymgeiswyr a gafodd eu derbyn i brifysgolion tariff uwch 25% tra bod y rhai i brifysgolion 'tariff is' wedi gostwng 22%.

Gan nad yw'r twf mewn recriwtio myfyrwyr rhyngwladol bellach ar agor i lawer o sefydliadau ers 2023 (gweler isod), mae cystadleuaeth ym marchnad y DU wedi cyflymu. Mae darparwyr tariff uwch wedi cynyddu nifer y derbyniadau UCAS 15% mewn dwy flynedd (rhwng 2023 a 2025) - sy'n cyfateb i 23,700 o fyfyrwyr ychwanegol.

Mae data diweddar a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Myfyrwyr yn dangos bod prifysgolion ymchwil-ddwys mwy yn casglu cyfran gynyddol o'r farchnad myfyrwyr domestig, gyda phrifysgolion llai a mwy dwys o ran addysgu yn wynebu gostyngiadau yn nifer y myfyrwyr.

Yn y cyfamser, mae cofrestriadau sefydliadau tariff is a chanolig wedi gostwng mewn termau cyfrannol ac absoliwt. Er bod cyfanswm y derbyniadau yn 2025 yn ddim ond 2% (8,885 o fyfyrwyr) yn is nag yn 2016, mae dwy ran o dair 'is' sector y DU yn ôl tariff mynediad wedi gweld gostyngiad o 13% (46,015 o fyfyrwyr).

Mae prifysgolion Cymru wedi gweld amrywiaeth yn eu ffawd gyda dim ond tair yn gallu cynyddu eu niferoedd israddedig domestig rhwng 2015/16 a 2023/24, a mwy na hanner yn gweld cyfangiadau, sy'n swm anghymesur o'i gymharu â thueddiadau ledled y DU oherwydd bod gan Gymru gyfran gymharol lai o sefydliadau tariff uwch. Mae'r tueddiadau hirdymor hyn yn cuddio anwadalrwydd sylweddol o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer rhai sefydliadau a phynciau, yn enwedig ers pandemig Covid-19.

Mae'r sefydliadau yng Nghymru sydd â gostyngiad yn nifer y myfyrwyr israddedig o'r DU rhwng 2015/16 a 2023/24 wedi gweld gostyngiadau sy'n amrywio o 3% i 34%, er bod nifer yr israddedigion ledled y DU wedi cynyddu. Yng nghylch mynediad 2025 gwelwyd gostyngiad cyffredinol o 4.2% yn nifer y derbyniadau gan ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru, o'i gymharu â chylch 2024, sy'n awgrymu bod ansicrwydd a risg sylweddol o ran rhagolygon y sector wrth i'r gystadleuaeth ddwysáu.

## Myfyrwyr Rhyngwladol

Yn sgil yr her o gystadlu ym marchnad myfyrwyr y DU, effaith andwyol Brexit ar incwm recriwtio ac ymchwil yr UE, ynghyd â chostau cynyddol ac erydiad yng ngwerth termau real ffioedd a chyllid myfyrwyr domestig, trodd llawer o brifysgolion yng Nghymru a ledled y DU at dwf mewn recriwtio myfyrwyr rhyngwladol rhwng 2015 a 2024, ac yn enwedig ar ôl pandemig Covid-19.

Arweiniodd llacio rheolau fisâu myfyrwyr ynghylch dibynyddion myfyrwyr a fisâu gwaith graddedigion yn 2021 at gynnydd sylweddol mewn ceisiadau rhyngwladol ledled y DU. Bu cynnydd o 48% yn nifer y myfyrwyr o'r tu allan i'r DU (UE a thu allan i'r UE) a gofrestrwyd am y tro cyntaf yn gyffredinol rhwng 2015/16 a 2023/24 yng Nghymru, gydag un sefydliad yn fwy na dyblu o ran nifer ei fyfyrwyr rhyngwladol a dderbyniwyd, ac un arall yn fwy na threblu o ran niferoedd rhyngwladol. Roedd hyn er gwaethaf gostyngiad sylweddol o 72% yn nifer y myfyrwyr o'r UE.

Mewn chwech prifysgol o'r wyth yng Nghymru, tyfodd cyfran cyfanswm y myfyrwyr o dramor yn ystod y cyfnod hwn. Roedd incwm ffioedd myfyrwyr rhyngwladol yn cyfrif am 19% o gyfanswm incwm prifysgolion yng Nghymru, traean o incwm ffioedd dysgu yn 2023/24, i fyny chwarter o incwm ffioedd yn 2017/18. Daeth llawer o'r twf hwn mewn darpariaeth ôl-raddedig un flwyddyn a addysgir, sy'n tueddu i fod yn fwy cyfnewidiol o ran cynhyrchu incwm na darpariaeth israddedig aml-flwyddyn.

Tynhawyd rheolau mewnfudo myfyrwyr yn 2023 a 2024, gan arwain at ostyngiad sydyn yn nifer y cofrestriadau a gofnodwyd. Serch hynny, bydd prifysgolion yn y DU ac yng Nghymru yn parhau i ddibynnu'n drwm ar fyfyrwyr rhyngwladol am refeniw. Talodd myfyrwyr rhyngwladol

(ac eithrio'r UE) £368m mewn ffioedd i brifysgolion Cymru yn 2023/24, sy'n cynrychioli allgludo uniongyrchol sylweddol. Roedd un dadansoddiad yn amcangyfrif budd net o £1.3bn gan fyfyrwyr rhyngwladol i economi Cymru yn 2021/22. Mae ffigurau'r Swyddfa Gartref yn awgrymu, er gwaethaf y gostyngiadau sylweddol yn 2023 a 2024, bod fisâu astudio noddedig a roddwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025 yn dal yn fwy na dwbl yr hyn a roddwyd ym mis Mehefin 2016.

Mae'r rhagolygon ar gyfer niferoedd myfyrwyr rhyngwladol yn y DU bellach yn aneglur. Yn dilyn papur gwyn diweddaraf Llywodraeth y DU ar fewnfudo, gallai tynhau'r broses o reoleiddio nawdd fisa ymhellach gyfyngu ar y capasiti ar gyfer twf sylweddol ymysg myfyrwyr rhyngwladol yn y tymor canolig. Ar y llaw arall, gyda'r ardoll myfyrwyr rhyngwladol newydd yn Lloegr, efallai y bydd gan brifysgolion yng Nghymru fantais gystadleuol fach, ac mae data diweddaraf y Swyddfa Gartref yn awgrymu adfywiad bach mewn fisâu a gyhoeddwyd yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2025 o'i gymharu â 2024.

## 2.3.3 – Cydweithio - enghreifftiau a heriau polisi
## Addysg bellach ac ysgolion

Fel y nodwyd yn yr adroddiad Plant, Pobl Ifanc ac Addysg diweddar, mae "sector addysg a hyfforddiant trydyddol llwyddiannus yng Nghymru yn dibynnu ar gydweithio rhwng ysgolion a cholegau".

Mae ysgolion a cholegau yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i ehangu opsiynau cwricwlwm ar gyfer dysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio neu sydd â diddordeb mewn addysg alwedigaethol.

Mae'r rhaglen Prentisiaeth Iau, sydd bellach yn cael ei chynnig gan saith coleg, yn cynnig dewis arall i bobl ifanc 14-16 oed yn lle addysg prif ffrwd ac mae'n dibynnu ar gyfathrebu cryf rhwng sefydliadau er mwyn llwyddo, yn enwedig o ran diogelu a chydlynu.

Yn ogystal â rhaglenni Prentisiaeth Iau, mae colegau hefyd yn cydweithio ag ysgolion i gynnig addysgu galwedigaethol rhan-amser, gan ddangos ymrwymiad traws-sector i ddewis dysgwyr. Mae colegau ledled Cymru yn cynnig rhaglenni rhan-amser sydd wedi hen ennill eu plwyf, gan gynnwys amrywiaeth o gyrsiau galwedigaethol yng Ngholeg Grŵp Llandrillo Menai a rhaglen brynhawn Gwener sy'n arbenigo mewn datblygu ynni adnewyddadwy yng Ngholeg Sir Benfro. Mae'r enghraifft olaf yn dibynnu ar gydweithio agos ag ysgolion lleol ar amserlennu i sicrhau bod dysgwyr yn cael y dewis i fynd i'r coleg ar yr un pryd bob wythnos. Mae awdurdodau lleol Castell-nedd Port Talbot a Wrecsam yn bwriadu ehangu'r ddarpariaeth alwedigaethol gyda chyfleusterau pwrpasol i ddysgwyr 14-16 oed.

Er gwaethaf yr heriau a nodwyd uchod, mae adroddiad diweddar y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn nodi bod llawer o ysgolion sydd â chweched dosbarth yn mynd ati i annog dysgwyr i archwilio cynigion gan golegau lleol a chynigion dysgu seiliedig ar waith ac yn gwahodd darparwyr allanol i ddod i ysgolion i siarad â disgyblion. Mae'r dull cydweithredol hwn yn helpu i gynnig amrywiaeth lawn o opsiynau ôl-16 i ddysgwyr. Nododd y pwyllgor yn benodol enghreifftiau da o bartneriaethau ar draws Gogledd Cymru.

Dyrannwyd £3 miliwn o Gyllid Pontio yn 2023/24 a 2024/25 i gryfhau'r cydweithio rhwng ysgolion, colegau Addysg Bellach a darparwyr hyfforddiant. Roedd y cyllid yn galluogi gweithgareddau sy'n cefnogi'r newid o addysg cyn-16 i addysg ôl-16, fel rhaglenni haf, dosbarthiadau meistr a diwrnodau blasu colegau.

## Addysg bellach ac uwch

Fel y nodwyd ym mhennod 2.4, mae llawer o brifysgolion yn torri'n ôl ar gostau ac yn enwedig meysydd pwnc penodol mewn ymateb i bwysau ariannol a chystadleuaeth yn y farchnad. Yn aml, mae sefydliadau'n gwneud penderfyniadau ailstrwythuro'n annibynnol.

Mae perygl y bydd rhai pynciau'n diflannu'n gyfan gwbl o Gymru, lle gallai camau gweithredu cydlynol i sicrhau arbedion uwch ddarparu cyfleoedd i gynnal amrywiaeth eang o bynciau yng Nghymru.

Mae'r Academi Brydeinig yn nodi bod mannau oer yn y dyniaethau mewn addysg uwch yn effeithio'n benodol ar rannau o Ogledd, De-orllewin a Dwyrain Lloegr, yn ogystal ag ardaloedd mawr o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gall darparu cwricwlwm eang mewn addysg uwch sydd ar gael yn lleol yng Nghymru fod yn gynyddol bwysig o ystyried canfyddiadau UCAS sy'n awgrymu bod cyfran gynyddol o ymgeiswyr yn bwriadu byw gartref.

Mae Universities UK wedi amlygu'r heriau ar gyfer cynllunio effeithiol ac effeithlonrwydd mewn amgylchedd cynyddol gystadleuol:

***"Mae dwyster y gystadleuaeth wedi golygu bod prifysgolion yn dilyn modelau busnes a gweithredu tebyg a drud iawn, a llai, yn hytrach na mwy, o wahaniaethu ar draws y sector addysg uwch... Mewn rhai achosion, gall hyn fod ar draul gwella cryfderau unigryw sefydliad ei hun tra'n atal dulliau creadigol o addysgu, ymchwilio a gweithredu. Gall hefyd greu tensiwn â buddiannau cenedlaethol ehangach, gan gynnwys gweithgarwch a allai fod o fudd i amcanion economaidd a'r gymdeithas ehangach ond nad yw efallai'n trosi'n alw gan fyfyrwyr, fel darparu sgiliau arbenigol iawn i ddiwallu anghenion diwydiannau penodol."***

Un ffordd o fynd i'r afael â'r heriau hyn yw drwy fwy o gydweithio. Gall hyn gynnwys amrywiaeth o drefniadau, o gynghrair anffurfiol o sefydliadau annibynnol sy'n gweithio tuag at nodau cyffredin, i strwythurau llywodraethu ffurfiol sy'n gweithredu ar draws gwahanol gampysau gydag ymreolaeth i'r rhannau cyfansoddol, ac enghreifftiau eraill hefyd.

Mae enghreifftiau o strwythurau cydweithio ffurfiol yng Nghymru yn cynnwys y canlynol:

- Mae Grŵp Prifysgol De Cymru yn gweithredu tri champws a dau is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i Goleg Merthyr Tudful a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.
- Mae Grŵp Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi ffurfio ar ôl uno tri sefydliad - Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan, Coleg Prifysgol y Drindod Caerfyrddin a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe - ac mae'n gweithredu ar draws gwahanol gampysau. Erbyn hyn, mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn gweithredu fel rhan o grŵp gyda Choleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion.

Ceir enghreifftiau hefyd o drefniadau cydweithio mwy anffurfiol, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Mae Cynghrair Trydyddol Gogledd Cymru yn dod â Phrifysgol Bangor, Coleg Cambria, Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Wrecsam at ei gilydd dros bedair blynedd gyda'r nod o gysoni addysg bellach ac uwch yn well yn y rhanbarth.
- Mae Rhwydwaith Arloesi Cymru yn rhwydwaith o brifysgolion Cymru gyfan i hwyluso cydweithio ar ymchwil ac arloesi.

- Darpariaeth ar y cyd fel MA Genedlaethol mewn Addysg (Cymru), a ddatblygwyd ar y cyd gan saith prifysgol yng Nghymru. Mae nifer o bartneriaethau hyfforddiant doethurol ledled Cymru hefyd.

Er nad yw cydweithio sefydliadol yn ateb i bob problem, a gall datblygu partneriaethau gymryd llawer o amser a dod â chostau sylweddol, mae cydweithio'n cynnig y posibilrwydd o gynyddu mas critigol fel rhwystr yn erbyn gwendidau unigol. Gallai hyn helpu i ddiogelu capasiti ymchwil ac addysgu yng Nghymru ar gyfer meysydd pwnc sy'n agored i niwed, creu arbedion effeithlonrwydd hirdymor drwy arbedion maint cynyddol, a sicrhau bod ailstrwythuro sefydliadol yn cael ei gyflawni'n strategol.

Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi egluro bod amrywiaeth o weithgareddau cydweithredol rhwng darparwyr addysg na fyddent yn dod o fewn cwmpas cyfraith cystadleuaeth, ac mae wedi ymrwymo i roi rhagor o gyngor.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno i raddau helaeth â barn Llywodraeth y DU y dylai sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach chwilio am gyfleoedd ar gyfer cydweithio rhanbarthol a mwy o arbenigedd lle bo hynny'n briodol, gyda'r nod o gynnal darpariaeth ranbarthol a chenedlaethol gyffredinol eang.

Dyna pam y gofynnodd Llywodraeth Cymru i Medr gynnal ymarfer mapio - gan edrych ar y galw am feysydd pwnc, eu darparu a'u dosbarthu ar draws addysg uwch yng Nghymru, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Chwefror. Bwriad yr ymarfer hwn yw cefnogi ein dealltwriaeth o ddarpariaeth meysydd pwnc gwahanol yng Nghymru, a lle bo'n briodol, cefnogi ymdrechion cydweithredol i gynnal cynnig eang a hygyrch ar draws y sector yng Nghymru. Rydym yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar y cyfleoedd a'r heriau ar gyfer mwy o gydweithio, a'r rhwystrau presennol a allai fodoli o ran cyllid, llywodraethiant a rheoleiddio.

### 2.3.4 – Crynodeb: cydweithredu a chystadleuaeth

- Mae'r sector addysg drydyddol yng Nghymru yn gweld newidiadau sylweddol yn nifer y dysgwyr, dewisiadau pwnc a galw, gydag amrywiadau mewn tueddiadau ar draws chweched dosbarth ysgolion, addysg bellach a phrifysgolion. Gall cystadleuaeth yn yr amgylchedd hwn fod yn niweidiol i gynaliadwyedd hirdymor rhai darparwyr a darpariaeth.

- Yn gyffredinol, mae gostyngiad yn nifer y cofrestriadau chweched dosbarth mewn ysgolion. Mae rhai awdurdodau lleol yn adolygu trefniadaeth eu darpariaeth ôl-16, gyda goblygiadau o ran ehangder a hygyrchedd y cwricwlwm, gan gynnwys addysg cyfrwng Cymraeg. Mae colegau addysg bellach yn denu cyfran gynyddol o ddysgwyr ôl-16.

- Efallai fod cystadleuaeth rhwng ysgolion a cholegau yn tanseilio'r angen i roi cyngor clir a diduedd i bobl ifanc ar eu dewisiadau ôl-16.

- Mae cystadleuaeth yn y farchnad rhwng prifysgolion ledled y DU ac ehangu ymosodol gan rai prifysgolion tariff uwch wedi cael effaith niweidiol ar sefyllfa ariannol rhai sefydliadau a chynaliadwyedd rhai cyrsiau, yn enwedig yng Nghymru. Gall ailstrwythuro darpariaeth heb ei gynllunio a heb ei gydlynu beryglu 'mannau oer' o ran darpariaeth.

- Mae recriwtio myfyrwyr rhyngwladol wedi dod yn fwyfwy pwysig ar gyfer cyllid prifysgolion, er bod newidiadau rheoleiddio diweddar yn golygu na ellir dibynnu ar dwf pellach.

- Mae llawer o enghreifftiau presennol o gydweithio effeithiol rhwng ysgolion, colegau a phrifysgolion, sy'n gallu helpu i ehangu opsiynau cwricwlwm, sicrhau canllawiau diduedd i ddysgwyr, a chreu arbedion effeithlonrwydd o ran costau.

## 2.4 Cynaliadwyedd ariannol

Mae Llywodraeth Cymru yn gwario tua 5.2% o'i hadnoddau cyllidol ar addysg drydyddol a phrentisiaethau, sy'n gyfanswm o £1.116bn mewn cymorth refeniw yn unig yn 2025-26. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi buddsoddi £251m yn ystadau colegau addysg bellach ers 2014 drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gyda £90m arall wedi'i ymrwymo i brosiectau sydd ar y gweill.

Y tu hwnt i'w chyllideb graidd, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth helaeth i sefydliadau a myfyrwyr drwy fenthyciadau myfyrwyr. Roedd cyfanswm gwariant ar fenthyciadau i fyfyrwyr wedi cynyddu o £819m yn 2020-21 i £963m yn 2024-25 ac mae wedi'i gyllidebu i fod yn fwy na £1bn yn 2025-26.

Serch hynny, mae darparwyr ar draws y sector wedi wynebu heriau ariannol sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf: ysgolion, colegau a phrifysgolion. Mae costau'n parhau i gynyddu, ac mae incwm fesul myfyriwr wedi'i wasgu.

Er gwaethaf setliadau gwell yn y gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhagolygon tymor canolig ar gyfer cyllid cyhoeddus yn dal yn heriol. Yn y cyfamser, mae pwysau cynyddol ar gynaliadwyedd gwariant ac ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr, heb unrhyw gapasiti ar gyfer cynnydd mewn benthyciadau myfyrwyr sy'n rhagori ar bolisi Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr, a phwysau costau byw parhaus ar fyfyrwyr eu hunain.

O ystyried adnoddau cyhoeddus cyfyngedig, rhaid i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu cyllid yn y dyfodol mewn addysg drydyddol. Os na allwn ehangu'r cyllid am gyfnod amhenodol i gefnogi pob math o ddarpariaeth a chymorth, rhaid gwneud dewisiadau ynghylch lle bydd buddsoddiad yn cael yr effaith fwyaf. Nid yw'r rhain yn benderfyniadau syml - mae pob dull gweithredu yn arwain at fanteision a chyfaddawdau i ddysgwyr, cymunedau a chynaliadwyedd y sector. A bydd angen cynyddol i ddarparwyr gynyddu'r cyllid a ddarperir drwy gynllunio doeth, arbedion effeithlonrwydd, ac mewn rhai achosion drwy gydweithio â darparwyr eraill, er mwyn cynyddu gwerth buddsoddiadau'r llywodraeth a dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant.

### 2.4.1 – Pwysau ariannol ar sefydliadau
### Ysgolion

Mae cyllid ar gyfer darpariaeth ôl-16 yn gyson ar draws colegau ac ysgolion, er mwyn cynnal ansawdd y ddarpariaeth yn gyfartal ni waeth sut mae dysgwyr yn cael mynediad at eu haddysg.

Er mai dim ond cyfran fach o'r gweithgarwch cyffredinol ydyw, bydd pwysau ariannol ar ysgolion yn arwain at oblygiadau cynyddol i'r ddarpariaeth ôl-16. Gostyngodd cronfeydd wrth gefn ysgolion 43% rhwng mis Mawrth 2024 a mis Mawrth 2025, i £66m. Mae nifer yr ysgolion sydd â chyllidebau diffyg wedi cynyddu o 309 i 393. Mae 27% o ysgolion ledled Cymru mewn sefyllfa o ddiffyg ariannol.

Mae'n debygol y bydd gostyngiad yn nifer y dysgwyr a maint dosbarthiadau yn rhoi rhagor o bwysau ar gyllid ac adnoddau ysgolion mewn darpariaeth ôl-16, yn enwedig ar gyfer sicrhau cwricwlwm eang a hygyrch. Disgwylir i'r costau barhau i gynyddu ynglŷn â chyflog, ADY, cludiant i'r ysgol a chostau ynni. Mae rhagor o gostau yn debygol o godi pan fo awdurdodau lleol yn ceisio sicrhau darpariaeth ôl-16 Cymraeg.

## Colegau

Mae colegau addysg bellach yng Nghymru yn cael eu hariannu'n bennaf gan Lywodraeth Cymru drwy Medr, sy'n dyrannu cyllid craidd yn seiliedig ar nifer y dysgwyr, mathau o raglenni a blaenoriaethau strategol. Mae colegau'n dibynnu'n fwy uniongyrchol ar gyllid gan y llywodraeth na phrifysgolion, gydag 85% o'u hincwm yn dod o ffynonellau Llywodraeth Cymru.[2]

Mae dyraniadau ychwanegol i'r sector dros y blynyddoedd diwethaf wedi cael eu gwneud yn bennaf i barhau i sicrhau cydraddoldeb cyflog ag athrawon ysgol a chynnydd yn nifer y dysgwyr. Mae cynnydd mewn cyllid wedi cael ei wneud i gyllid llawn amser 'statudol' (ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed yn bennaf), drwy gynnydd yng nghyfradd y cyllid i adlewyrchu dyfarniadau cyflog i athrawon, a chynnydd a ragwelir yn nifer y dysgwyr (oherwydd twf demograffig a chyfran gynyddol o ddysgwyr sy'n mynd i'r coleg yn 16 oed). Cynyddodd y cyllid a ddyrannwyd i golegau ar gyfer rhaglenni llawn amser o £212m yn 2019/20 i £280m ym mlwyddyn academaidd 2024/25, a bydd yn cynyddu i £313m yn 2025/26.

Fodd bynnag, mae colegau'n wynebu heriau ariannol cynyddol wrth i gostau cynyddol barhau i fod yn fwy na'r cynnydd hwn mewn incwm grant craidd. Mae'r pwysau cost hyn yn deillio o dwf sylweddol yn nifer y dysgwyr dros y ddwy flynedd diwethaf, gan fynd y tu hwnt i'r dyraniadau a bennwyd gan y model cyllido presennol. Nid yw ychwanegiadau at y grant craidd o ran cyflog yn ymestyn i staff a ariennir gan ffynonellau nad ydynt yn rhai craidd nac anllywodraethol. Mae cynnydd yn nifer y dysgwyr ar lefelau is, yn ogystal ag anghenion mwy cymhleth y dysgwyr, wedi cynyddu costau cymorth i ddysgwyr. Bu'n rhaid i lawer o golegau gynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau trafnidiaeth, ac mae'r cyllid ar gyfer darpariaeth ran-amser a darpariaeth arall nad yw'n ddarpariaeth graidd hefyd wedi'i wasgu.


O ystyried y costau uwch hyn, mae hylifedd cyfunol colegau'n dirywio, gyda chostau staffio'n tyfu fel canran o incwm a gwariant. Mae colegau wedi rhedeg nifer o gynlluniau diswyddo gwirfoddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gynnal cyllideb weithredu gytbwys.

Medr sy'n gyfrifol am fonitro iechyd ariannol y sector AB ac mae wedi adrodd yn flaenorol bod colegau'n parhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol yn y tymor canolig. Roedd gan 12 coleg allan o 13 yng Nghymru warged gweithredol yn 2023/24, ac mae safleoedd hylifedd colegau yn dal yn iach i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae'r gweddillion hyn (a hylifedd cyffredinol) wedi gostwng ers y pandemig, sy'n dangos sefyllfa ariannol dynnach sy'n debygol o barhau ar y tueddiadau presennol. Gostyngodd gwarged gweithredu net y sector o 7% yn 2021/22 i 2.2% yn 2023/24, gyda diwrnodau hylifedd net yn gostwng i 104 diwrnod.

## Prifysgolion

Mae heriau ariannol yn y sector addysg uwch wedi bod yn cyflymu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Gostyngodd cyfanswm incwm y sector ar gyfer prifysgolion Cymru 6% mewn termau real rhwng 2021/22 a 2023/24, sef y flwyddyn ddiweddaraf y mae cyfrifon cyhoeddedig ar gael ar ei chyfer ar hyn o bryd. Nododd chwech prifysgol allan o wyth ddiffyg sylfaenol yn 2023/24, sef y flwyddyn ddiweddaraf o gyfrifon a gyhoeddwyd.

**Ffigur 16: Cyfanswm incwm a ffynonellau incwm y sector addysg uwch. (£000) Prisiau Blwyddyn Ariannol 2023.**




Ffynhonnell: [Data Cyllid HESA](). datchwyddydd GDP.

Achos mwyaf uniongyrchol y pwysau ariannol presennol yw gostyngiad yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n cael eu recriwtio, yn enwedig yn nifer y myfyrwyr ôl-raddedig sy'n cofrestru. Mae hyn yn cael ei waethygu gan fwy o gystadleuaeth gan sefydliadau eraill ac effaith bosibl diwygiadau i bolisïau mewnfudo, fel trothwyon cydymffurfio uwch, a allai leihau nifer y myfyrwyr rhyngwladol sy'n cael eu derbyn ymhellach. Mae gan chwe sefydliad yng Nghymru gysylltiad cymharol uchel â recriwtio rhyngwladol, gyda dros 30% o'u hincwm ffioedd yn dod gan ffioedd rhyngwladol - yr uchaf yn cynrychioli 44% o gyfanswm incwm ffioedd dysgu yn 2023/24.

Fel y nodwyd uchod hefyd, mae recriwtio myfyrwyr cartref hefyd wedi dod yn fwy ansicr oherwydd cystadleuaeth yn y farchnad. Ond mae'r cyllid hwn hefyd wedi cael ei wasgu yn dilyn degawd o ddirywiad mewn termau real yng ngwerth ffioedd dysgu rhwng 2012/13 a 2024/25.

[1]Roedd cyfanswm cyllidebau refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg drydyddol yn 2025-26 yn £1.116 biliwn, sy'n cynrychioli tua 5.2% o gyfanswm adnoddau cyllidol Llywodraeth Cymru (£21.533 biliwn). Ffynhonnell: Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru 2025-26.

[2]Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o gyfrifon cyfunol 2023/24.

Er mai cyfran fach o'r incwm cyffredinol yw hyn, mae cyllid Llywodraeth Cymru hefyd wedi cael ei wasgu mewn termau real ers 2022/23, ar ôl cynyddu rhwng 2018/19 a 2021/22 ar ôl rhoi argymhellion Adolygiad Diamond ar waith.

Serch hynny, oherwydd grantiau cynhaliaeth myfyrwyr, mae cymorth uniongyrchol Llywodraeth Cymru ar gyfer costau addysg uwch fesul myfyriwr ychydig dros ddwywaith

y cyfraniad gan y trysorlys ar gyfer myfyrwyr o Loegr, ond hanner cyfraniad myfyrwyr yn yr Alban. Canfu dadansoddiad London Economics o flwyddyn academaidd 2024/25, rhwng costau grantiau addysgu, grantiau cynhaliaeth, a gostyngiadau disgwyliedig mewn benthyciadau myfyrwyr, mai rhaniad cyfartalog y costau ar gyfer myfyrwyr newydd sy'n mynd i addysg uwch o Gymru oedd tua 56% i'r llywodraeth, a 44% i raddedigion. Yn Lloegr, mae'r costau'n cael eu hysgwyddo'n bennaf gan raddedigion, ond yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, y wladwriaeth sy'n talu'r costau'n bennaf.

Yn y cyfamser, mae'r dadansoddiad yn dangos bod incwm cyfartalog Sefydliadau Addysg Uwch fesul myfyriwr israddedig llawn amser yn 2024/25 yn £9570 yng Nghymru, 6% yn is nag yn Lloegr, ond 18% yn uwch nag yn yr Alban.

**Ffigur 17: Incwm cyfartalog Sefydliadau Addysg Uwch fesul myfyriwr israddedig cartref llawn amser 2024-25**




| | England | Scotland | Wales | Northern Ireland |
|---|---|---|---|---|
| Cost of bursaries | -£90 | | -£200 | -£110 |
| Av. teaching grant | £1,070 | £6,020 | £520 | £5,420 |
| Tuition fee | £9,250 | £1,790 | £9,250 | £4,750 |

Ffynhonnell: Funding of tertiary education in Scotland: What can we learn from elsewhere in the UK? - London Economics

Fel y nodir isod yn adran 2.5, mae colli Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd a'r angen i gynyddu incwm cynghorau ymchwil y DU wedi creu heriau ychwanegol, gan fod gweithgareddau ymchwil yn parhau i wneud colled ac yn gofyn am gymorth o ffrydiau incwm eraill. Gostyngodd cyfanswm incwm ymchwil prifysgolion Cymru £32m rhwng 2022/23 a 2023/24, yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn incwm o ffynonellau'r UE (rhagor o fanylion yn 2.5.3).

Yn yr un modd â cholegau a gwasanaethau eraill a ariennir yn gyhoeddus, mae prifysgolion hefyd wedi gweld pwysau cynyddol o ran costau. Ni chafodd prifysgolion unrhyw gyllid cyhoeddus ychwanegol yng Nghymru na Lloegr i wneud iawn am gostau cynyddol Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (NICs) cyflogwyr yn 2025-26, yr amcangyfrifir eu bod yn costio £20m i'r sector yng Nghymru. Roedd rhannau o sector addysg uwch Cymru hefyd wedi gweld cynnydd

mewn Cyfraniadau Pensiwn Athrawon gwerth amcangyfrif o £6m yn 2024/25, nad ydynt hefyd yn cael eu cefnogi gan gyllid cyhoeddus, yn wahanol i golegau ac ysgolion.

Mae ailstrwythuro a buddsoddi angenrheidiol i gynnal cynaliadwyedd ariannol hefyd yn arwain at gostau sylweddol ymlaen llaw, ac mae sefydliadau'n adrodd am ohiriadau i gynnal a chadw a buddsoddiad cyfalaf rheolaidd arall a allai sicrhau arbedion refeniw yn y tymor hir. Bydd sefyllfa refeniw dynnach yn y tymor hir yn cyfyngu ar fuddsoddiadau cyfalaf a seilwaith yn y sector, nad yw'n cael yr un lefelau o fuddsoddiad cyfalaf gan y llywodraeth â rhannau eraill o'r sector addysg.

Nid yw'r heriau ariannol sy'n wynebu prifysgolion yn unigryw i Gymru. Canfu arolwg Tasglu Trawsnewid ac Effeithlonrwydd Universities UK o brifysgolion fod 49% o'r ymatebwyr wedi cau cyrsiau ac y byddai 89% yn ystyried gwneud hynny yn ystod y tair blynedd nesaf, ac mae 19% wedi lleihau gwaith ymchwil a datblygu academaidd, gyda 79% arall yn dweud y gallent ystyried hyn yn ystod y tair blynedd nesaf. wedodd prifysgolion hefyd eu bod wedi lleihau'r buddsoddiad mewn cynnal a chadw a seilwaith a'u bod wedi ymgymryd â newid strwythurol gyda 18% yn cau adrannau, 42% yn gwerthu asedau ffisegol a 25% wedi dileu swyddi'n orfodol, gyda mwy o swyddi'n cael eu colli drwy gytundebau ymadael gwirfoddol.

## 2.4.2 – Cynaliadwyedd y cymorth i fyfyrwyr
## Gwariant ar fenthyciadau myfyrwyr

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig pecyn cymorth cynhaliaeth myfyrwyr hael a chynyddol i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig. Mae'r cymorth hwn wedi'i gynllunio i helpu gyda chostau byw fel rhent, bwyd a theithio, ac mae'n cynnwys cyfuniad o grantiau nad oes angen eu had-dalu a benthyciadau ad-daladwy, gyda'r balans yn dibynnu ar incwm y cartref. Er bod pob myfyriwr israddedig yn cael yr un cyfanswm o gymorth, y rhai o'r aelwydydd incwm isaf sy'n graddio gyda'r dyledion isaf. I'r gwrthwyneb, mae polisi Lloegr yn codi uchafswm y benthyciad cynhaliaeth i fyfyrwyr o aelwydydd incwm is, sy'n golygu bod y myfyrwyr hyn yn gadael addysg uwch gyda'r dyledion mwyaf.

Mae grantiau myfyrwyr yn cael eu hariannu gan adnodd craidd Llywodraeth Cymru, Terfyn Gwariant Adrannol. Mae Gweinidogion Cymru yn rhydd i bennu maint y gwariant hwn o fewn eu rheolaeth gyffredinol o gyllideb Llywodraeth Cymru, er bod y gwariant gwirioneddol yn amodol ar alw gan fyfyrwyr.

Darperir cyllid ar gyfer gwariant ar fenthyciadau myfyrwyr fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME neu CAME) cyfalaf gan Drysorlys EF i Lywodraeth Cymru. Ni ellir defnyddio cyllid a ddarperir gan Drysorlys Ei Fawrhydi ar gyfer rhaglenni Gwariant a Reolir yn Flynyddol at unrhyw ddiben arall.


Mae'r Datganiad Polisi Ariannu yn amlinellu y bydd Trysorlys Ei Fawrhydi yn talu costau AME llywodraethau datganoledig lle mae'r llywodraeth ddatganoledig yn cynnig telerau 'tebyg yn fras [i Lywodraeth y DU/Lloegr]' ar gyfer rhaglen AME.

Ers cyflwyno polisi cyllido cyfredol Llywodraeth Cymru yn 2018, mae gwerth grantiau myfyrwyr a throthwyon cymhwysedd incwm aelwydydd ar gyfer grantiau yn dal wedi'u rhewi, ac felly'n destun 'llusgo cyllidol' gyda chwyddiant. Yn y cyfamser, cynyddodd cyfanswm y cymorth cynhaliaeth rhwng 2018/19 a 2024/25 yn unol â'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Yn 2025/26, roedd grantiau'n dal wedi rhewi, ac roedd cyfanswm y cymorth cynhaliaeth wedi cynyddu yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr a ragwelwyd. Yn 2026/27, bydd cyfanswm y

grantiau a'r cymorth cynhaliaeth yn cynyddu yn ôl y Mynegai Prisiau Defnyddwyr a ragwelir. Felly, mae gwariant benthyciadau myfyrwyr Llywodraeth Cymru wedi codi'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ar gyfer benthyciadau cynhaliaeth llawn amser, gan fod cyfanswm yr hawliau benthyca wedi cynyddu ac mae cyfran y myfyrwyr sy'n gymwys i gael y symiau mwyaf o fenthyciadau hefyd wedi cynyddu ynghyd ag incwm aelwydydd. Mae llusgiad cyllidol hefyd wedi lleihau nifer y myfyrwyr sy'n gymwys i gael y symiau mwyaf o grantiau, gan arwain at ostyngiad mewn gwariant grant. Mae grantiau myfyrwyr wedi gostwng o 32% o gyfanswm y gwariant ar gymorth i fyfyrwyr yn 2020-21 i 23% yn 2024-25, ac mae benthyciadau wedi cynyddu o 68% i 77%.

Yn 2024-25, cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru ar grantiau myfyrwyr oedd £284m. Mae cyfanswm gwariant grantiau wedi gostwng 25% mewn termau arian parod ers 2020-21. Rhagwelir y bydd gwariant grant yn parhau i ostwng yn y dyfodol o dan y polisi cyfredol, gyda llai o fyfyrwyr yn gymwys i gael y lefelau grant uwch gan nad yw'r trothwyon incwm wedi newid.


**Ffigur 18: Grant Cymorth Myfyrwyr a Gwariant Benthyciadau Myfyrwyr ers 2020-21 (2025-26 = wedi'i gyllidebu)**




Ffynhonnell: Data cyllid Llywodraeth Cymru

O ganlyniad i lai o wariant grant mewn termau real, mae'r twf parhaus yn y gwariant ar fenthyciadau i fyfyrwyr. Cynyddodd y benthyciad cynhaliaeth blynyddol cyfartalog ar gyfer myfyriwr israddedig amser llawn o Gymru 59% o £5,110 i £8,150 rhwng 2020-21 a 2024-25, gan ragori ar gyfartaledd Lloegr am y tro cyntaf. Roedd cyfanswm gwariant ar fenthyciadau myfyrwyr wedi cynyddu o £819m yn 2020-21 i £963m yn 2024-25 ac roedd wedi'i gyllidebu i fod yn fwy na £1bn yn 2025-26.

**Ffigur 19: Swm cyfartalog y benthyciad cynhaliaeth amser llawn a delir i fyfyrwyr yn ôl gwlad sy'n rhoi cymorth (domisil) - blynyddoedd academaidd 2003/04 i 2024/25**




Ffynhonnell: [Student loans - UK comparisons - to academic year 2024/25 - GOV.UK]

Mae Llywodraeth Cymru yn modelu defnydd gwrthffeithiol polisi Llywodraeth y DU i'w rhagolygon i sicrhau bod ei gwariant rhagamcanol ar fenthyciadau yn aros o fewn terfynau Trysorlys EF. Canfu dadansoddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru fod gwariant rhagamcanol ar fenthyciadau i fyfyrwyr yng Nghymru, ar sail polisi cyfredol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, bron yn gyfartal â pholisi gwrthffeithiol Llywodraeth y DU sydd wedi'i fodelu.

O ystyried yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â modelu o'r fath, mae hyn yn golygu na all Llywodraeth Cymru fforddio cynyddu gwariant cyffredinol benthyciadau myfyrwyr ar gyfradd uwch na Llywodraeth y DU mwyach. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd benthyciadau cynhaliaeth i fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr yn parhau i godi yn ôl chwyddiant am weddill y tymor Seneddol presennol. Mae'r cyfyngiadau ariannol hyn yn her i bolisi cymorth parhaus i fyfyrwyr yng Nghymru.

## Ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr

Yn 2023/24 cyflwynodd Llywodraeth y DU bolisi ad-dalu benthyciadau myfyrwyr Cynllun 5 i fenthycwyr newydd sy'n hanu o Loegr. Roedd Cynllun 5 yn newid yr egwyddorion sy'n sail i fenthyciadau myfyrwyr yn sylweddol, drwy gynyddu ad-daliadau oes disgwyliedig graddedigion sy'n ennill incwm is a chanolig (yn enwedig menywod) ar yr un pryd â lleihau'r ad-daliadau disgwyliedig i raddedigion sy'n ennill mwy.[1]

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal polisi ad-dalu Cynllun 2, a gyflwynwyd gyntaf yn 2012/13, sy'n cynnal trothwy ad-dalu uwch, cyfnod ad-dalu byrrach, a chyfradd llog grisiog mewn termau real. Roedd hyn yn cynnal proffil cymharol gynyddol o ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr i raddedigion sy'n hanu o Gymru ac yn lleihau'r gofynion ad-dalu i raddedigion sy'n ennill llai a chanol.

Yng nghyllideb 2025, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai trothwy ad-dalu benthyciad Cynllun 2 yn cael ei rewi rhwng 2027 a 2030 ar gyfer benthycwyr yn Lloegr, gan ddod â mwy o fenthycwyr i ad-dalu a chynyddu rhwymedigaethau ad-dalu'r rheini sydd eisoes yn gwneud ad-daliadau. Bydd hyn yn lleihau'r gwahaniaeth rhwng trothwyon ad-dalu Cynllun 2 a Chynllun 5 yn Lloegr.

Gall newidiadau i bolisi ad-dalu graddedigion fod yn arwyddocaol i gyllid personol graddedigion. Roedd rhewi'r trothwy ad-dalu a throthwyon cyfraddau llog ar gyfer benthycwyr Cynllun 2 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn 2022 wedi cynyddu ad-daliadau oes cyfartalog graddedigion £11,600.

Mae telerau ad-dalu i fenthycwyr Cymru yn parhau o fewn pwerau Gweinidogion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau gyda Thrysorlys EF a'r Adran Addysg ynghylch goblygiadau penderfyniad rhewi trothwy Cynllun 2 i Gymru. Serch hynny, mae penderfyniad Llywodraeth y DU yn dangos y pwysau cynyddol i sicrhau bod costau hirdymor y llyfr benthyciadau myfyrwyr yn parhau i fod yn gynaliadwy. Rhaid i wariant DEL adnoddau wedi'u neilltuo Llywodraeth Cymru ar amhariadau benthyciadau myfyrwyr aros o fewn y cyfyngiadau cyllidebol a nodir gan Drysorlys EF yn y Datganiad o Bolisi Ariannu. Mae hyn yn gosod terfyn pellach (yn ogystal â'r cyfyngiad gwariant a amlinellir uchod) ar unrhyw gynnydd mewn gwariant ar fenthyciadau, yn ogystal ag i ba raddau y gall y telerau ad-dalu barhau i fod yn gynyddol.

Gyda'i gilydd, mae'n debygol y bydd y pwysau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru adolygu a diwygio ei pholisi parhaus ar wariant cymorth i fyfyrwyr, ac o ran ad-dalu benthyciadau i fyfyrwyr, er mwyn cynnal rheolaethau priodol ar wariant a pharhau â pholisi sy'n cyd-fynd â nodau polisi Llywodraeth Cymru.

## 2.4.3 – Cyllid myfyrwyr a chostau byw
## Ysgolion ac addysg bellach

Fel y nodwyd mewn rhannau eraill o'r papur, mae cyfran sylweddol o wariant cyffredinol Llywodraeth Cymru ar grantiau a benthyciadau ar gyfer addysg drydyddol yn cefnogi myfyrwyr mewn addysg uwch ac addysg bellach gyda chostau byw wrth ddysgu.

Mewn addysg bellach, mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu pwysau cost sylweddol a chynyddol ar ddysgwyr sy'n ceisio cael mynediad at addysg ôl-16. Mae dysgwyr o gefndiroedd mwy difreintiedig eisoes yn llawer llai tebygol o symud ymlaen i addysg ôl-16, er bod hyn yn debygol o fod oherwydd amrywiaeth o ffactorau sy'n cynnwys caledi costau byw.

Roedd adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn tynnu sylw at y ffaith bod pwysau costau byw yn rhwystr sylweddol i ddysgwyr mewn addysg ôl-16, yn enwedig y rheini o aelwydydd incwm is. Canfuwyd bod prisiau cynyddol ar gyfer hanfodion fel bwyd, trafnidiaeth a deunyddiau dysgu yn gwaethygu straen ariannol, gan ei gwneud yn anoddach i fyfyrwyr barhau i ymgysylltu a chwblhau eu cyrsiau.

Mae cyfran gynyddol o'r rhai sy'n derbyn Lwfans Cynhaliaeth Addysg - 76% - mewn colegau AB, cyfran llawer uwch na'r boblogaeth gyffredinol o ddysgwyr 16-18 oed mewn addysg. Roedd 31% o ymgeiswyr a gymeradwywyd gan y Lwfans yn astudio naill ai cymwysterau Safon Uwch neu UG yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24.

Roedd ychydig o dan chwarter, sef 23%, yn astudio ar gyfer cymhwyster BTEC ac roedd chwarter arall, sef 24%, yn astudio ar gyfer NVQ.

Mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn cael ei ystyried yn ffynhonnell bwysig o gymorth, ond dywedodd llawer o ddysgwyr yn yr adolygiad mai dim ond yn rhannol y mae'r taliad wythnosol presennol yn gwrthbwyso'r pwysau hyn. Nododd yr adolygiad, heb y Lwfans, y byddai rhai myfyrwyr yn ei chael hi'n anodd fforddio hanfodion sylfaenol neu deithio, ac argymhellodd gynnal y lwfans. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu trothwyon incwm aelwydydd ar gyfer bod yn gymwys i gael y Lwfans.

Mae ffynonellau eraill o gymorth ariannol ar gael i ddysgwyr ôl-16, megis y Gronfa Ariannol Wrth Gefn gwerth £7m. Mae'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn wedi'i gynllunio i gefnogi dysgwyr sy'n wynebu caledi ariannol neu sydd mewn perygl o adael eu cyrsiau oherwydd pwysau ariannol, ac mae'n cael ei ddosbarthu gan golegau yn unol â chanllawiau Medr. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru i ddysgwyr Addysg Bellach sy'n oedolion, a bydd adolygiad o'r cymorth hwn yn cael ei gyhoeddi fis Mawrth 2026.

Mae gwariant o'r gronfa hon yn tynnu sylw at y pwysau cost mwyaf sylweddol ar ddysgwyr, gyda bron i 40% yn cefnogi trafnidiaeth, 20% yn cefnogi bwyd, a 15% yn cefnogi gofal plant. Mae colegau'n adrodd fwyfwy nad yw'r cyllid sydd ar gael yn ddigonol i ateb y galw.

Mae colegau hefyd wedi nodi cynnydd o fwy na £3.2m mewn costau trafnidiaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio lleihau costau teithio i ddysgwyr a phobl ifanc drwy gyflwyno cynllun prisiau peilot i bobl ifanc rhwng 16 a 21 oed ers mis Medi 2025 ac ymestyn y cynllun ymhellach i bobl ifanc rhwng 5 a 15 oed o fis Tachwedd 2025 ymlaen. Mae tocynnau'n costio £1 am docyn unffordd a £3 am docyn diwrnod i deithio gyda gweithredwyr sy'n cymryd rhan. Er bod y prosiect peilot wedi cael ei groesawu, mae rhai rhanddeiliaid wedi nodi na fydd yn mynd i'r afael â'r holl heriau trafnidiaeth sy'n wynebu dysgwyr ôl-16. Bydd y gwerthusiad annibynnol sydd ar y gweill o'r cynllun tocynnau Pobl Ifanc yn ystyried yn benodol effaith y cynllun ar fynediad pobl ifanc at addysg a hyfforddiant ôl-16.

Er y gallai gweithio mewn partneriaeth yn gryfach helpu i gael gwared ar rwystrau sy'n atal pobl ifanc rhag deall a chael gafael ar yr amrywiaeth lawn o opsiynau ôl-16, gallai hefyd arwain at fwy o deithio os bydd mwy o ddysgwyr yn dewis sefydliadau y tu allan i'w hardal leol.

Rhoddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sylw i drafnidiaeth fel rhwystr i addysg yn ei waith, ac mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu dadansoddiad o'r pellter sydd ei angen i deithio i sefydliadau addysg drydyddol ledled Cymru, er mwyn deall amrywiadau daearyddol mewn gofynion teithio. Disgwylir i hyn gael ei gyhoeddi ochr yn ochr ag adolygiad cyflym o dystiolaeth ar gludiant i ddysgwyr ym mis Mawrth 2026.

## Addysg uwch

Ym maes addysg uwch, mae cymorth cynhaliaeth myfyrwyr Llywodraeth Cymru wedi mynd y tu hwnt i chwyddiant ers 2016, a Chymru sy'n darparu'r gyfran fwyaf o gostau byw mewn cymorth cynhaliaeth lleiaf ac uchaf ar gyfer unrhyw wlad yn y DU. Pobl ifanc 18 oed yng Nghymru yw'r ymgeiswyr lleiaf tebygol o fynd i addysg uwch i ddatgan bwriad i fyw gartref. Serch hynny, dim ond 63% o'r costau disgwyliedig i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf o Gymru sy'n byw ac yn astudio oddi cartref yng Nghymru y mae cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr yn eu talu.

Yn yr un modd ag addysg bellach, mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg o bwysau cynyddol ar gostau byw myfyrwyr addysg uwch ledled y DU. Roedd y pwysau hyn yn cynyddu cyn y pandemig ond maent wedi cynyddu ers 2021 gyda lefelau chwyddiant uwch.

Cynyddodd y rhent blynyddol cyfartalog ar gyfer llety myfyrwyr pwrpasol yn y DU 61% yn gyffredinol, neu 4.9% o un flwyddyn i'r llall ar gyfartaledd, ymhell uwchlaw chwyddiant cyffredinol.

Mae cyfran y myfyrwyr sy'n dweud eu bod mewn cyflogaeth â thâl yn ystod y tymor wedi dyblu o'i gymharu â 2021 i 68%.

Yn ôl un arolwg, mae un myfyriwr addysg uwch o bob chwech yn gweithio i gefnogi eu teuluoedd yn ariannol. Canfu arolwg gan NUS Cymru yn 2023 fod 8% o fyfyrwyr Cymru wedi profi digartrefedd, a dywedodd 32% eu bod wedi methu talu rhent ar ryw adeg ym mlwyddyn academaidd 2022/23.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cynnal gwerthusiad o elfennau cymorth i fyfyrwyr Adolygiad Diamond, er mwyn deall os mae'r pecyn cymorth gwell i fyfyrwyr a gyflwynwyd yn 2018 wedi galluogi a gwella myfyrwyr i gael mynediad at addysg uwch ac osgoi rhwystrau ariannol, a sut mae wedi gwneud hynny. Bydd canfyddiadau'r gwaith hwnnw'n cael eu cyhoeddi yng Ngwanwyn 2026.

Yn ogystal â chymorth i fyfyrwyr a ddarperir gan y llywodraeth, mae prifysgolion hefyd yn rhoi cymorth ariannol ychwanegol sy'n seiliedig ar brawf modd, gan gynnwys bwrsariaethau, ysgoloriaethau a chronfeydd caledi.

O ystyried y pwysau ar gostau cyllid myfyrwyr a amlinellir uchod, ynghyd â phob costau astudio cynyddol, felly mae heriau sylweddol wrth ystyried sut y gall Llywodraeth Cymru barhau i sicrhau nad yw costau byw yn rhwystr rhag cymryd rhan mewn addysg.

## 2.4.4 – Crynodeb: cynaliadwyedd ariannol

- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn addysg drydyddol a phrentisiaethau, gan gynnwys cyllid ar gyfer refeniw, cyfalaf a benthyciadau myfyrwyr.

- Mae heriau ariannol yn cynyddu i ysgolion, colegau a phrifysgolion, wedi'u yrru gan gostau cynyddol, gostyngiadau mewn incwm fesul myfyriwr, ac mewn rhai achosion, gostyngiad yn nifer y myfyrwyr.

- Mae colegau addysg bellach yn wynebu pwysau o ganlyniad i niferoedd cynyddol o ddysgwyr ac anghenion cymorth cymhleth, gyda chyllid cyfyngedig ar gael nad yw'n gyllid craidd. Er gwaethaf sefydlogrwydd ariannol cyffredinol, mae colegau'n dweud bod llai o arian dros ben a llai o hylifedd, sy'n dangos amodau ariannol tynnach.

- Mae prifysgolion wedi gweld gwasgfa mewn incwm tymor real fesul myfyriwr, yn ogystal â mwy o gystadleuaeth ddomestig a rhyngwladol a cholli cyllid ymchwil Ewropeaidd, gan arwain at dorri costau ac ailstrwythuro sylweddol.

## 2.5 Cyflawni ar gyfer yr economi

Ar draws y ddau sector, deellir bod canlyniadau'r farchnad lafur yn amrywio'n sylweddol. Fodd bynnag, mae adnoddau cyhoeddus yn aml yn cael eu dyrannu mewn ffordd gymharol gyfartal, a phrin yw'r targedu tuag at yr enillion cymdeithasol neu economaidd uchaf, neu'r anghenion mwyaf mewn gwasanaethau cyhoeddus. Ym maes addysg uwch, mae natur gymharol gynyddol y system benthyciadau myfyrwyr yn naturiol yn golygu bod y cymhorthdal cyhoeddus ar ei fwyaf pan fydd adenillion preifat yn is.

Yn y cyfamser, mae diwygiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i gyllid ymchwil, ar ôl ymadael â'r UE a dirywiad parhaus mewn adennill costau ymchwil, yn gofyn am ragor o flaenoriaethu mewn gweithgareddau ymchwil ac arloesi er mwyn sicrhau bod cystadleurwydd cymharol Cymru cyn uched â phosibl ac i gyd-fynd â sectorau â blaenoriaeth sy'n dod i'r amlwg yn yr economi.

Felly, mae yna her i sicrhau'r adenillion mwyaf posibl o fuddsoddiad cyhoeddus ar gyfer twf economaidd ar draws addysgu ac ymchwil, a sicrhau nad yw adnoddau'n mynd tuag at ddarpariaeth sydd â budd preifat a chyhoeddus mwy cyfyngedig tra bod meysydd ag anghenion sgiliau amlwg neu werth economaidd uchel yn parhau i fod heb ddigon o adnoddau.

### 2.5.1 – Llwybrau galwedigaethol

Fel y nodwyd uchod, mae cyfran gynyddol o bobl ifanc yng Nghymru yn mynd i addysg ôl-16 ac yn dilyn llwybrau cymwysterau galwedigaethol, gan ddechrau ar lefel 2 ac is yn aml. Mae addysg a hyfforddiant galwedigaethol, mewn addysg bellach ac addysg uwch, yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gefnogi cenhadaeth economaidd Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol a chyfrannu at Gymru sy'n gryfach, yn decach ac yn fwy gwyrdd.

Fodd bynnag, mae yna fylchau parhaus yn nealltwriaeth llunwyr polisïau, darparwyr a dysgwyr o ganlyniadau economaidd a chanlyniadau cyflogaeth gwahanol lwybrau cymwysterau yn ôl pwnc, sector, a lefel, ac a ddylid galluogi a chymell gofynion am sgiliau penodol drwy gynllunio a chyllido – ac os felly, sut.

Canfu'r 'Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol yng Nghymru' yn 2023 fod diffyg strategaeth genedlaethol gydlynol wedi arwain at ddarpariaeth dameidiog ac anhawster wrth geisio cysoni cymwysterau ag anghenion economaidd. Mae yna fwlch rhwng y cymwysterau sydd ar gael ac anghenion y farchnad lafur, a hynny yn sgil gwybodaeth sydd wedi dyddio, diffyg cysoni â'r galw, a diffyg hyblygrwydd. Mae nifer yr opsiynau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cynyddu, ond mae'r mynediad at gymwysterau ac adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'n amrywio. Mae'r system gymwysterau yn gymhleth ac yn anodd ei defnyddio, gyda llawer o gyrsiau lle mae'r niferoedd yn isel a llwybrau dilyniant aneglur, yn ogystal â chyngor ac arweiniad anghyson sy'n arwain at heriau wrth bontio rhwng yr ysgol ac addysg a hyfforddiant galwedigaethol ôl-16.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i gynhyrchu Prosbectws ar gyfer Cyfeiriad Strategol Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol yng Nghymru a fydd yn cael ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2026. Bydd hyn yn ategu ein galwad ehangach am gyflwyniadau yn y papur hwn ac yn ystyried ymhellach ddiwygiadau i gymwysterau galwedigaethol a chymwysterau cyffredinol cymhwysol yn Lloegr, gan gynnwys cyflwyno cymwysterau Lefel V i ddisodli'r cymwysterau cyffredinol cymhwysol sydd ar gael ar hyn o bryd.

## 2.5.2 – Canlyniadau'r farchnad lafur ar gyfer addysg drydyddol

Yn 2024, roedd 55% o oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar. Mae'r ffigur hwn yn gostwng i 35% i'r rheini oedd â chymwysterau hyd at Lefel 2 ac i 15% i'r rheini oedd â chymwysterau hyd at lefelau 4-6. Mae hyn yn amlygu'r cysylltiadau cryf rhwng sgiliau sylfaenol a chyflogaeth.

Ceir sylfaen dystiolaeth eang hefyd sy'n mesur y cysylltiad rhwng sgiliau sylfaenol a chyflogaeth ac enillion. Dangosodd dadansoddiad fod dysgwyr a enillodd gymwysterau Saesneg a Mathemateg Lefel 1 neu Lefel 2, yn enwedig wrth eu hastudio ochr yn ochr â chymwysterau lefel uwch, wedi cael buddion nodedig o ran enillion a'u bod yn llai tebygol o fod ar fudd-daliadau. Mae hyn hefyd yn wir wrth eu cyfuno â chymwysterau galwedigaethol eraill, gan bwysleisio ymhellach bwysigrwydd sgiliau sylfaenol wrth greu Cymru gynhyrchiol a llewyrchus. Mae ymchwil y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn fyd-eang yn dangos cysylltiad cryf rhwng cynhyrchiant uwch a gwell sgiliau sylfaenol.

Rydym yn deall llai am ganlyniadau'r farchnad lafur ar gyfer llawer o gymwysterau galwedigaethol drwy addysg bellach, yn enwedig yng Nghymru. Er enghraifft, nid yw'r dadansoddiad daearyddol o enillion graddedigion er mwyn amcangyfrif y galw wedi cael ei ailadrodd i'r un graddau ar gyfer llwybrau eraill. Oherwydd ystod anghenion marchnadoedd llafur lleol, mae'n debygol y bydd amrywiaeth fawr yn y buddion i ddysgwyr ac economïau lleol yn sgil mwy o gyfranogiad mewn ystod eang ac amrywiol o gyrsiau.

Mae ystadegau cyrchfannau dysgwyr gan Medr yn dangos bod gan ddysgwyr seiliedig ar waith gyfradd cyflogaeth barhaus lawer uwch (89%) o'i gymharu â'r rhai sy'n gadael addysg bellach a'r chweched dosbarth (55%). Byddai mynd ymhellach o ran cysylltu â chanlyniadau, fel enillion, a rheoli ffactorau fel nodweddion personol neu bynciau yn dangos ymhle mae'r defnydd mwyaf gwerthfawr o adnoddau. Pe byddai'r wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd, gallai hefyd helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau mwy gwybodus.

Ar lefel y DU, mae'r premiwm graddedigion yn dal i fodoli ar gyfartaledd, ond mae'n amrywio'n sylweddol yn ôl pynciau a sefydliadau. Rhagwelir y byddai un o bob pump o israddedigion yn y DU wedi bod yn well eu byd yn ariannol pe na baent wedi mynd i addysg uwch, ond bydd un o bob deg ar gyfartaledd yn ennill dros hanner miliwn o bunnoedd o ran gwerth presennol disgowntiedig (DPV).

Yn ddiweddar, mae ymchwil a thrafodaethau wedi dechrau cwestiynu'r modd y mae'r "premiwm graddedigion", sef yr enillion ychwanegol cyfartalog sy'n gysylltiedig â gradd, yn cael ei fesur, a hyd yn oed maint y premiwm. Mae yna hefyd amrywiaeth eang o fanteision cymdeithasol pwysig a gwerthfawr iawn, fel llai o wariant ar iechyd a chyfraddau troseddu is, a dylid eu mesur mewn unrhyw asesiad o adenillion addysg ar bob lefel.

Mae ymchwil sy'n dadansoddi gwahaniaethau rhanbarthol yn y cyflenwad o raddedigion a'i effeithiau ar dwf economaidd wedi canfod cydberthynas negyddol rhwng nifer y graddedigion a'r premiwm cyflog graddedigion dros amser, er bod yr adenillion cyfartalog cyffredinol yn parhau i fod yn gadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw'r adenillion wedi gostwng yng Nghymru a Llundain. Mae hyn yn dangos nad yw'r cyflenwad o raddedigion yng Nghymru wedi mynd y tu hwnt i'r galw, fel y gwelir yng ngwledydd eraill y DU ac yn rhanbarthau Lloegr ac eithrio Llundain. Mae hyn yn awgrymu diffyg graddedigion, nid yn unig mewn graddau STEM ond mewn pynciau eraill fel y Gyfraith, Cyllid a Rheolaeth.

Yn gyffredinol, gallai hyn fod yn gyfyngiad sy'n rhwymo twf economaidd yng Nghymru, yn wahanol i rannau eraill o'r DU.

Fodd bynnag, mae symudedd pobl fwy addysgedig yn golygu y gallai rhai o fanteision y cynnydd mewn lefelau cyrhaeddiad addysg ymddangos mewn rhanbarthau eraill, yn enwedig Llundain. Yn 2022/23, roedd 27% o raddedigion Cymru, 16% o raddedigion Gogledd Iwerddon ac 11% o raddedigion yr Alban yn gweithio y tu allan i wlad eu cyfeiriad parhaol gwreiddiol, tra bod 2% o raddedigion â chyfeiriad parhaol yn Lloegr yn gweithio y tu allan i Loegr. Mae hyn yn cuddio symudedd rhanbarthol sylweddol ymhlith graddedigion tuag at Lundain a de-ddwyrain Lloegr yn y DU. Fodd bynnag, mae symudedd graddedigion yn un o nodweddion y system, yn hytrach na nam. Mae lefelau uwch o symudedd yn arwain at swyddi sy'n cyfateb yn dda a chynhyrchiant uwch ar lefel y DU gyfan, ond gall fod yn un rheswm pam mae'r galw ymddangosiadol am raddedigion yn dal i fod yn gymharol uchel yng Nghymru.


Mae tueddiadau technolegol ac economaidd newidiol yn creu ansicrwydd ynghylch nifer a math y swyddi yn y dyfodol, gan arwain at anhawster i ddarogan marchnadoedd llafur y dyfodol yn llwyddiannus. O ganlyniad, gall buddsoddi arian cyhoeddus mewn rhaglenni sgiliau ar sail rhagamcanion o'r fath arwain at aneffeithlonrwydd. Yr her ar gyfer cynllunio sgiliau yw nodi'r anghenion sgiliau mwyaf uniongyrchol a di-oed, a mynd ati ar yr un pryd i greu sylfaen eang o seilwaith sgiliau a sgiliau a gwybodaeth addasadwy yn barod ar gyfer dyfodol anrhagweladwy.

## 2.5.3 – Ymchwil ac Arloesi

Mae ymchwil mewn prifysgolion yn cael ei hariannu'n bennaf gan y llywodraeth, busnes, diwydiant, ac elusennau. Yng Nghymru, mae dwy elfen y 'system ariannu ddeuol' wedi'u rhannu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae grantiau cystadleuol yn cael eu darparu gan Lywodraeth y DU, yn bennaf gan Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI), tra mae grantiau bloc heb eu neilltuo, fel cyllid sy'n gysylltiedig ag ansawdd (QR), Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF), a chyllid i ymchwilwyr ôl-raddedig, yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru drwy Medr.

Dyfernir cyllid QR ar sail ansawdd ymchwil, yn unol ag asesiad y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil. Ei fwriad yw rhoi sefydlogrwydd a hyblygrwydd i sefydliadau, gan helpu i gefnogi ceisiadau am ddyfarniadau cystadleuol. Mae prifysgolion hefyd yn cael arian ymchwil gan elusennau a busnesau.

**Ffigur 20: Darparwyr Addysg Uwch Cymru, grantiau ymchwil a chontractau yn ôl y ffynhonnell. (£000) wedi'i addasu i brisiau Blwyddyn Ariannol 2023. Heb gynnwys cyllid Medr.**





Ffynhonnell: [What is the income of HE providers? | HESA]

Yn hanesyddol, roedd cyllid yr Undeb Ewropeaidd yn elfen sylweddol o gyllid ymchwil yr oedd sefydliadau yng Nghymru yn gallu ei chael yn sgil y lefelau cymharol o anfantais economaidd. Roedd prifysgolion Cymru yn cael canran uchel o gronfeydd strwythurol a chronfeydd datblygu'r UE ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi (amcangyfrifir bod hyn rhwng 17% a 22% o gyfanswm dyraniad y DU, a chyfran sylweddol o gyfanswm arian cronfeydd strwythurol UE Cymru) o'i chymharu â gweddill y DU. Roedd prifysgolion yn defnyddio cyllid QR i gefnogi'r capasiti gweinyddol oedd ei angen i reoli cyllid yr UE, gan leihau'r swm oedd ar gael ar gyfer meithrin a chadw capasiti, a oedd yn canolbwyntio ar ffynonellau mwy cystadleuol.

Gan fod cyllid strwythurol yr UE wedi dod i ben, rhaid i brifysgolion Cymru droi at ffynonellau eraill o gyllid sy'n cael ei ddyfarnu'n gystadleuol. Mae tystiolaeth o rywfaint o lwyddiant yn hyn o beth dros y blynyddoedd diwethaf, gyda grantiau cyngor ymchwil i brifysgolion Cymru yn cynyddu £27m (42%) rhwng 2019/20 a 2023/24. Fodd bynnag, mae Cymru'n dal i gael swm anghymesur o isel o grantiau cystadleuol UKRI, sef 3%, o'i gymharu â 4% o staff sy'n weithredol ym maes ymchwil a 5% o'r boblogaeth.

Mae adennill costau gwaith ymchwil yn broblem hefyd. Dim ond 80% o gost economaidd lawn y gwaith y mae disgwyl i grantiau UKRI ei dalu. Fodd bynnag, mae'r ganran adennill costau wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf ledled y DU i 67%, ac mae ymchwil wedi dod yn fwyfwy dibynnol ar gymorth o ffynonellau incwm eraill prifysgolion – ffioedd myfyrwyr rhyngwladol yn bennaf. Mae'r sefyllfa'n waeth ar gyfer cyllid elusennol, lle mae'r ganran adennill costau yn is.

**Ffigur 21: Ymchwil i gynaliadwyedd ariannol data TRAC 2023 i 2024**




Ffynhonnell: Research financial sustainability TRAC data 2023 to 2024 – UKRI

Mae Llywodraeth y DU wedi nodi blaenoriaethau newydd ar gyfer cyllid ymchwil ac arloesi, â'r bwriad o fynd i'r afael â'r diffyg hwn mewn costau a sicrhau mwy o werth ac effaith. Bydd gan y mesurau hyn oblygiadau sylweddol i sector addysg uwch Cymru.

Bydd cyllid UKRI yn cael ei gyfeirio fwyfwy tuag at gefnogi cenadaethau sydd â blaenoriaeth, ac mae disgwyl i brifysgolion ddatblygu arbenigeddau i gael y cyllid hwn. Y nod fydd lleihau dyblygu gwaith a gwella arbenigedd gwirioneddol er mwyn adeiladu màs critigol a rhagoriaeth ymchwil ac arloesi sy'n arwain ar lefel fyd-eang.

Mae hyn yn awgrymu y bydd angen mwy o arbenigo mewn sefydliadau yng Nghymru, yn ogystal â mwy o gydweithio rhyngddynt, gan ddefnyddio strwythurau fel Rhwydwaith Arloesi Cymru. Bydd angen hefyd i sefydliadau rannu arbenigeddau â darparwyr yng ngweddill y DU i fod mewn sefyllfa well i gystadlu am gyllid UKRI.

Mae gan brifysgolion Cymru eisoes gryfderau mewn ymchwil ac arloesi sy'n cyd-fynd â'r sectorau â blaenoriaeth yn strategaeth ddiwydiannol Llywodraeth y DU. Gall y rhain fod yn sylfaen gref ar gyfer gwella cystadleurwydd cyffredinol am gyllid grant, ac i gysoni gwaith ymchwil â datblygiad economaidd mewn rhanbarthau lleol.

Mae'r clwstwr gweithgynhyrchu uwch a lled-ddargludyddion yn ne-ddwyrain Cymru, ynni glân yn ne-orllewin Cymru, a'r diwydiannau creadigol yn enghreifftiau o hyn.

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd £547m o gyllid twf lleol ar gael i Lywodraeth Cymru dros dair blynedd rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2029. Bydd Partneriaethau Arloesi Lleol yn cryfhau'r cydweithio rhwng busnesau a phrifysgolion, gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cael £30m, gan chwarae rhan ganolog yn y gwaith o sbarduno ymchwil

a datblygu a masnacheiddio. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar ein cynigion buddsoddi ar gyfer Cronfa Twf Lleol yng Nghymru a fydd hefyd yn gofyn am gydweithio i gyflawni rhwng nifer o bartneriaid o lywodraeth leol, busnesau a mentrau cymdeithasol, y trydydd sector, ac addysg uwch ac addysg bellach.

## 2.5.4 – Effaith deallusrwydd artiffisial yn dod i'r amlwg

Mae deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol eisoes yn trawsnewid addysg uwch ac addysg bellach. Mae ei ymddangosiad wedi codi cwestiynau dwys o ran cynllunio'r cwricwlwm, asesu, cymorth i ddysgwyr, uniondeb academaidd, a chwestiynau sylfaenol ynghylch ymddiriedaeth yng nghynhyrchion sefydliadau addysg. Mae deallusrwydd artiffisial hefyd yn creu ansicrwydd sylweddol ynghylch anghenion sgiliau yn y dyfodol a rhagolygon swyddi gweithwyr iau, gan gynnwys graddedigion.

Fodd bynnag, mae deallusrwydd artiffisial hefyd yn creu cyfleoedd cynyddol i bersonoli adnoddau dysgu a chymorth i fyfyrwyr, symleiddio prosesau gweinyddol, a gwella dadansoddeg data mewn sefydliadau addysg.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau deall mwy am sut mae sefydliadau addysg drydyddol yn wynebu heriau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ac yn manteisio ar ei fuddion.

## 2.5.5 – Crynodeb: Cyflawni ar gyfer yr economi

- Mae addysg drydyddol yng Nghymru yn hanfodol ar gyfer gwella canlyniadau economaidd a llesiant yn y dyfodol yn sgil ei heffaith ar gynhyrchiant ac enillion.

- Mae yna dystiolaeth sylweddol i gefnogi manteision economaidd preifat a chymdeithasol addysg uwch, ond mae llai o wybodaeth am ganlyniadau amrywiol gwahanol lwybrau addysg bellach.

- Mae adenillion addysg yn amrywio'n sylweddol yn ôl y pwnc a'r math o gymhwyster; mae rhai meysydd yn arwain at fanteision economaidd uchel, tra bod eraill yn cynnig adenillion mwy cyfyngedig ac, mewn lleiafrif o achosion, adenillion negyddol, gyda chymhorthdal cyhoeddus sylweddol.

- Yn gyffredinol, mae cyllid cyhoeddus yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal ar draws cyrsiau a chymwysterau, a phrin yw'r cysoni â'r adenillion economaidd neu gymdeithasol gwirioneddol.

- Mae'n bosibl y bydd darpar ddysgwyr yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar ddata am ganlyniadau, neu ddehongli'r data hwnnw, gan arwain o bosibl at ddyrannu adnoddau'n aneffeithlon a cholli cyfleoedd mewn meysydd lle mae'r angen am sgiliau yn fawr.

- Mae addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn dod yn fwyfwy poblogaidd ac yn chwarae rhan hollbwysig i gyflawni blaenoriaethau economaidd Cymru, ond mae'r ddarpariaeth yn dameidiog, ac nid oes cysondeb o ran sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd ag anghenion y farchnad lafur. Mae yna ddiffyg llwybrau cynnydd clir, mae'r mynediad at opsiynau dwyieithog yn anghyson, ac felly hefyd yr arweiniad i ddysgwyr sy'n dilyn llwybrau galwedigaethol.

- Mae cyllid ymchwil ac arloesi ym mhrifysgolion Cymru yn newid mewn ymateb i newidiadau yng nghyllid y DU a'r UE, gyda phwyslais cynyddol ar arbenigo a chydweithio i sicrhau grantiau cystadleuol. Mae angen i Lywodraeth Cymru a'r sector AU weithio gyda'i gilydd i sicrhau cymaint â phosibl o'r incwm sydd ar gael ar gyfer y DU gyfan a chanolbwyntio ar feysydd cryfder allweddol, sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau economaidd.
- Mae newidiadau technolegol ac economaidd, yn enwedig twf deallusrwydd artiffisial, yn creu ansicrwydd ynghylch anghenion sgiliau yn y dyfodol ond maent hefyd yn cynnig cyfleoedd i bersonoli addysg a gwella prosesau sefydliadol.



# 03

# GALWAD AM GYFLWYNIADAU

## 3.1 Gwaith casglu tystiolaeth sy'n digwydd ar hyn o bryd

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wrthi'n ymgymryd â rhaglen sylweddol o waith casglu tystiolaeth ac ymchwil i nifer o'r heriau a nodir yn y papur hwn.

Dros y 18 mis diwethaf, mae'r gwaith ymchwil a dadansoddi wedi blaenoriaethu datblygu dealltwriaeth o dueddiadau o ran cyfranogiad mewn addysg drydyddol. Mae amrywiaeth eang o dystiolaeth yn cael ei chywain drwy ddulliau cymysg, gan gyfuno cysylltu data, ymchwil gymdeithasol, a chyfuno ac adolygu tystiolaeth, ac ystyried grwpiau penodol o ddysgwyr.

Mae nifer o adroddiadau ymchwil ac adroddiadau ystadegol wedi cael eu cyhoeddi eisoes:
- Cynllun gwerthuso diwygiadau Diamond i gyllid myfyrwyr
- Dilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol, Awst 2017 i Ionawr 2025
- Gwerthusiad proses y Warant i Bobl Ifanc
- Gwerthusiad ffurfiannol o Twf Swyddi Cymru+
- Profiadau dysgwyr mewn addysg ôl-16 (arolwg)
- Adolygiad o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg

Disgwylir y bydd rhagor o waith sydd wedi'i wneud neu wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2026:
- Tystiolaeth i gefnogi'r gwerthusiad o ddiwygiadau Diamond i gymorth i fyfyrwyr.
- Adolygiad o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer AB.
- Adroddiad interim ar werthusiad Rhaglen Seren.
- Dadansoddiad ac adolygiad o'r dystiolaeth ynghylch y pellter y mae angen i ddysgwyr ei deithio i'r sefydliadau addysg drydyddol agosaf yng Nghymru.
- Adroddiad ystadegol ar ragfynegyddion cyfranogiad ôl-16.
- Adroddiad ystadegol ar bontio o addysg Bellach.
- Adolygiad o'r dystiolaeth ynghylch ymyriadau effeithiol i gynyddu cyfranogiad.
- Adolygiad o'r dystiolaeth ynghylch rhwystrau i addysg uwch.
- Dadansoddiad carfanau YDG Cymru o ddilyniant a chyfranogiad drwy addysg.

Bydd adroddiad Medr ar Bynciau astudio - galw, darpariaeth a dosbarthiad meysydd pwnc ar draws addysg uwch yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi ym mis Chwefror.

Mae cyhoeddiadau presennol ac arfaethedig Medr sy'n ymwneud â chyfranogiad a chynaliadwyedd yn cynnwys y canlynol:
- Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyrchfannau dysgwyr): Awst 2021 i Orffennaf 2023, cyhoeddwyd Rhagfyr 2025.
- Deilliannau graddedigion, 2022/23, cyhoeddwyd Gorffennaf 2025.
- Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16:Cyflawniad, Awst 2023 i Orffennaf 2024, cyhoeddwyd Mai 2025.
- Mfyrywr addysg uwch: Awst 2023 i Orffennaf 2024, cyhoeddwyd Ebrill 2025. Data Awst 2024 i Orffennaf 2025 data i'w gyhoeddi ar 29 Ionawr 2026.
- Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd: Chwefror i Ebrill 2025 (dros dro) cyhoeddwyd Awst 2025. Mai i Hydref 2025 data dros dro i'w gyhoeddi ar 19 Chwefror 2026.
- Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu cymunedol: Awst 2023 i Orffennaf 2024, cyhoeddwyd Mawrth 2025.  Data Awst 2024 i Orffennaf 2025i'w gyhoeddi ar 26 Chwefror 2026.

- Mesurau canlyniadau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned: Awst 2023 i Orffennaf 2024, cyhoeddwyd Mawrth 2025; data Awst 2025 i Orffennaf 2025 i'w gyhoeddi ar 18 Mawrth 2026.
- Mesur Cyfranogiad Cychwynnol mewn Addysg Uwch: hyd at flwyddyn academaidd 2022/23, cyhoeddwyd Chwefror 2025.

Mae manylion ymchwil ac ystadegau sydd wedi'u cyhoeddi ymlaen llaw ac sy'n bodoli eisoes gan Lywodraeth Cymru a Medr ar gael yma: Ystadegau ac Ymchwil | LLYW.CYMRU